

Briff Arolwg Cyflwr y Sector Ynni Cymunedol

Gwahoddir tendrau ar gyfer cynllunio a chyflenwi arolwg ac adroddiad yn amlinellu cyflwr cyfredol y sector ynni cymunedol yn y Deyrnas Gyfunol.

Cynnwys

1.	Crynodeb	1
2.	Cefndir a chyd-destun	1
3.	Ystod y project	3
4.	Amserlen	7
5.	Cyllideb	8
6.	Proses gyflwyno	8

1. Crynodeb

Mae Ynni Cymunedol Cymru (CEW), Ynni Cymunedol Lloegr (CEE), ac Ynni Cymunedol yr Alban (CES) yn gwahodd tendrau gan sefydliadau sy'n meddu ar y sgiliau, y profiad a'r arbenigedd gofynnol i gyflawni ymchwil yn ymwneud â'r sector ynni cymunedol yn y Deyrnas Gyfunol yn 2020, gan adeiladu ar adroddiadau Cyflwr y Sector ([State of the Sector](#) - SOTS) blaenorol ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae'r cytundeb hwn wedi ei hollti yn dair rhan er mwyn cyflwyno canfyddiadau ar weithgaredd ar draws y Deyrnas Gyfunol, yng Nghymru ac yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

2. Cefndir a chyd-destun

Mae CEE a CEW wedi cyhoeddi pedwar adroddiad cyflwr y sector gyda'r nodau canlynol:

- Adeiladu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r sector ynni cymunedol yn y Deyrnas Gyfunol.
- Adnabod rhwystrau a chyfleoedd allweddol ar gyfer sefydliadau ynni cymunedol ynghyd â'r manau hynny lle bo angen hyfforddiant a chefnogaeth.
- Creu sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwaith eiriolaeth CEW a CEE.
- Llunio gweithgareddau ffurfiannol CEW a CEE er mwyn cynyddu capasiti a chreu twf yn y mudiad ynni cymunedol.

- Ysgafnhau'r baich gwaith ymchwil sydd ar sefydliadau ynni cymunedol, drwy ddarparu bas data cyhoeddus ar gyfer sefydliadau ac ymchwilwyr sy'n ceisio gwell dealltwriaeth o'r sector.

Mae'r adroddiadau SOTS wedi cael derbyniad da: y rhain yw adroddiadau arweiniol CEW ac CEE. Mae proffil y naill sefydliad a'r llall wedi cynyddu o'r herwydd, gan fod yr adroddiadau SOTS wedi eu dyfynnu droeon mewn gwahanol gyd-destunau ac fe'u defnyddir yn gyson gan wleidyddion a gweision sifil. Mae yna, fodd bynnag, nifer o heriau yn ymwneud â sicrhau fod effaith y SOTS yn parhau:

- Wrth i weithgareddau ynni cymunedol a'r gyfundrefn ynni fynd yn fwy cymhleth, mae cynllunio arolwg sy'n ddigon syml i sicrhau fod cyfradd dda o bobl yn ymateb iddo ac ar yr un pryd yn ddigon manwl i gynnwys data ystyrlon yn fwyfwy anodd.
- Sut i adrodd ar yr effaith gymdeithasol ac amgylcheddol a gaiff y sector ynni cymunedol yn genedlaethol. Mae CEE ar y cyd â phartneriaid wedi datblygu teclyn effaith gymdeithasol ond mae wedi ei danddefnyddio gan y sector, a hynny mae'n debyg oherwydd syrffed gydag arolygon barn.
- Sut y gall yr adroddiad SOTS Cyflwr y Sector hwn ofyn cwestiynau cryno ynglŷn ag effaith gymdeithasol gan ddefnyddio methodoleg un maint ar gyfer pawb fydd yn creu data ystadegol gadarn y gellir eu hadrodd i lywodraethau ac i randdeiliaid eraill.
- Defnyddir y SOTS gan wleidyddion ac arianwyr sy'n datblygu mecanweithiau cynhaliaeth ac mae wedi bod yn llwyddiannus wrth lywio trafodaethau gyda rhanddeiliaid allweddol a chyda gwleidyddion. Mae wedi bod yn anodd fodd bynnag i gasglu o'r ymatebion yn yr arolygon y lefel o fanylder sydd ei angen er mwyn creu sylfaen dystiolaeth eglur bob amser ee y cyswllt rhwng rhwystrau penodol megis cael gwared ar ad-daliad treth a'r cynnydd mewn projectau a ataliwyd.
- Mae'r sector ynni cymunedol wedi ei effeithio gan newidiadau arwyddocaol i'r tirlun polisi, symudiadau ehangach yn y system ynni, a datblygu chwim ar dechnoleg newydd. O fewn y cyd-destun hwn yr ydym am wneud yn siwr fod y naratif a'r canfyddiadau gan SOTS yn rhoi neges glir a neges sy'n ysbrydoli ynghylch potensial a dyfodol y sector, yn ogystal â darlun cywir o'i gyflwr ar hyn o bryd.
- Mae safon y data yn dibynnu ar ymateb da i'r arolwg, rhywbeth a all fod yn her i rai grwpiau ynni cymunedol (megis ymddiriedolaethau datblygu) ei ddarparu yn ystod cyfyngiadau COVID.

Er mwyn ceisio goresgyn yr heriau hyn a sicrhau fod effaith y SOTS yn parhau, buasem yn hoffi cydweithio gyda'r cytundebwr llwyddiannus er mwyn ymestyn y project i'r Alban, ailgynllunio'r arolwg SOTS a'r modd y cyflwynir y canfyddiadau, a chyhoeddi canfyddiadau o 2020.

Os yw'n llwyddiannus ac os bydd ariannu yn y dyfodol yn caniatáu, gall y cytundeb hwn gael ei ymestyn am ddwy flynedd arall.

3. Ystod y Project

Ystod: Rhan 1

Mae CEW, CEE a CES yn dymuno penodi cytundebwr i weithio ar y cyd â nhw er mwyn ailgynllunio'r arolwg SOTS ynni cymunedol ac er mwyn cynhyrchu adroddiad SOTS ledled y Deyrnas Gyfunol ar gyfer 2020.

Disgwylir i'r gwaith a gomisiynir yn y fan hon ystyried, fan lleiaf, drosolwg o:

- Newidiadau allweddol o ran polisi a chynhaliadaeth y Deyrnas Gyfunol yn 2020
- Data trefniadaeth ynni cymunedol ar draws y Deyrnas Gyfunol ee nifer y sefydliadau, math o sefydliad, nifer yr aelodau staff/gwirfoddolwyr, data cydraddoldeb ac amrywiaeth, nifer yr aelodau.
- Cyfanswm y projectau a'r gweithgareddau ynni cymunedol yn 2020, wedi ei ddosrannu i gynhyrchu trydan, cynhyrchu gwres, storio, cerbydau trydan, ac effeithlonrwydd ynni.
- Gwerth y cyllid a godwyd ac a fuddsoddwyd o fewn y flwyddyn 2020.
- Y gwerth ychwanegol a gyflawnwyd gan ynni cymunedol. Yr ydym yn frwd i weld rhyw fath o fesur enillion o fuddsoddi cymdeithasol er mwyn ein cynorthwyo i hybu gwerth ynni cymunedol.
- Heriau/rhwysterau a chyfleoedd, yn enwedig o ran edrych ar yr hyn y mae cymunedau yn ei wneud o gylch perchnogaeth ar y cyd, PPAs, gwres, cludiant, effeithlonrwydd ynni.
- Astudiaethau achos.

Mae'n hanfodol fod yr arolwg yn parhau i dderbyn cyfran dda o ymatebion. Byddwn yn gweithio gyda'r ymgeisydd llwyddiannus i gynhyrchu rhestr o feysydd blaenoriaeth a chwestiynau arolwg ar gyfer ymchwil wedi ei seilio ar y penawdau uchod, ond ceisir cyngor ar y ffordd fwyaf effeithlon o gynllunio a chyflawni'r arolwg (yr ydym hefyd yn barod i ystyried dulliau eraill o gasglu data) er mwyn sicrhau cyfradd gwblhau dda wrth gyflenwi data ystyrlon a phellgyrhaeddol.

Yn ogystal, buasem yn disgwyl i'r sawl sy'n cyfranogi yng Nghymru allu gwneud hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg ac fe ddylasai pob gohebiaeth gyda grwpiau yng Nghymru fod yn ddwyieithog. Gall Ynni Cymunedol Cymru ddarparu cynhorthwy er mwyn gallu gwireddu hyn.

Ystod: Rhan 2

Mae CEW yn ceisio cynhyrchu adroddiad ar gyfer Cymru sy'n sefyll ar ei draed ei hun ac a fydd yn eistedd ochr yn ochr ag adroddiad SOTS y Deyrnas Gyfunol. Dylai'r adroddiad hwn gefnogi ac atodi Rhan 1 gan ei bod yn bwysig cydnabod fod gan bolisi'r Deyrnas Gyfunol effaith sylweddol ar Gymru a bod CEW, CEE a CES yn gweithio gyda'i gilydd yn rheolaidd wrth lobbïo ar benderfyniadau polisi'r Deyrnas Gyfunol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd ariannu ar gyfer yr adroddiad hwn a bydd mwy o fanylder ar hyn ar gael gan CEW yn y dyfodol agos.

Bydd data ar sefydliadau Cymreig a gasglwyd o dan Rhan 1 yn bwydo i mewn i'r adroddiad hwn.

Yn ogystal â darparu ffocws Cymreig i'r lleiafswm gofynion sydd wedi eu gosod allan yn Rhan 1 uchod, disgwylir i'r adroddiad Cymreig archwilio:

- Cyd-destun polisi yng Nghymru. Beth sy'n wahanol yng Nghymru a pha effaith gaiff hynny ar ynni cymunedol? Pa gefnogaeth bellach allasai gael effaith? Bydd hi'n bwysig cydnabod fod polisi'r Deyrnas Gyfunol hefyd yn cael effaith ar Gymru..

- Sut mae grwpiau yn teimlo o ran y dyfodol? Ydyn nhw'n obeithiol neu'n anobeithio?
- Astudiaethau achos penodol i Gymru.
- Y gofynion allweddol a geisir gan Lywodraeth Cymru yn 2021 wrth ei lobïo wedi eu seilio ar y data uchod yn ogystal ag awgrymiadau o ran sut i weithio gyda CEE a CES ar lobïo ar lefel y Deyrnas Gyfunol.

Gobeithio y daw hwn yn adroddiad blynyddol fydd yn helpu CEW a Llywodraeth Cymru i fonitro a thracio cynnydd o fewn y gymuned ynni cymunedol yng Nghymru, i ddeall effeithiau penderfyniadau polisi allweddol yng Nghymru ac i fesur lefel yr hyder sydd gan grwpiau ynni cymunedol yng Nghymru o ran y rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

Mae'n bwysig cynnal yr ymrwymiad yn Gymraeg ac yn Saesneg a dylai'r adroddiad fod yn gyfan gwbl ddwyieithog. Gall CEW helpu gyda hyn, ond fe fydd yn elfen allweddol o'r gwaith.

Ystod: Rhan 3

Bydd hi'n ofynnol i'r cytundebwr llwyddiannus yn ogystal gynhyrchu adroddiad rhanbarthol ar gyfer Electricity North West, o'r data a ddarperir yn Rhan 1 o'r ystod, fydd yn cynnwys fan lleiaf:

- Data trefniadaeth ynni cymunedol: nifer y sefydliadau ynni cymunedol; math o sefydliad; nifer y staff/gwirfoddolwyr; data cydraddoldeb ac amrywiaeth; nifer yr aelodau.
- Projectau a gweithgareddau ynni cymunedol, yn benodol beth oedd y capasiti a osodwyd yn 2020 ar ben cyfanswm y blynyddoedd blaenorol a nifer y grwpiau ar draws y prif gategoriâu canlynol, cynhyrchu ynni, effeithlonrwydd ynni, storio a CT (Cerbydau Trydan).
- Gwerth y cyllid a godwyd ac a fuddsoddwyd o fewn y flwyddyn 2020.
- Y gwerth ychwanegol a ddarparwyd gan ynni cymunedol drwy gronfeydd lles cymunedol, effaith gymdeithasol, gweithgareddau amgylcheddol.
- Crynodeb o'r newidiadau a'r ceisiadau cynnal polisi o'r prif adroddiad.
- Dehongliad o'r canfyddiadau o'r prif adroddiad a sylwebaeth ar ba un a oes unrhyw wahaniaethau yn ardal drwydded y Gweithredwr rhwydwaith dosbarthu (DNO).

Gall fod cyfle i weithio gyda DNOs eraill i ddarparu rhagor o adroddiadau rhanbarthol. Gellir cydgyllunio fformat yr adroddiad rhanbarthol gyda CEE ond dylai'r DNO priodol weithredu fel atodiad i'r prif adroddiad er mwyn darparu ffigurau o faint y sector ym mhob ardal drwydded gyfranogol DNO a lle bo hynny'n briodol sylwebaeth ar unrhyw nodweddion penodol o'r sector yn yr ardal honno lle bo'n gwahaniaethu oddi wrth y darlun cenedlaethol. Bydd DNOs yn medru darparu data ar lefel cod post ar gyfer yr ôl troed yn eu hardal drwydded. Gall y bydd modd iddynt ddarparu cynhorthwy ychwanegol megis rhestrau o grwpiau gwybyddus, cymorth i hyrwyddo'r arolwg, a mewnwleidiad i'r sector yn eu hardal a gwybodaeth amdano. Mae Electricity North West wedi ymrwymo i ddarparu'r cyfan o'r uchod.

Sut i fynd ynghyd â'r gwaith

Dylid cyflawni'r ymchwil gan ddefnyddio amryfal ddulliau gan gynnwys:

- Arolwg wedi ei anfon at bob sefydliad ynni cymunedol gwybyddus (Bydd CEW, CEE, a CES yn darparu cynhorthwy wrth dargedu grwpiau ac wrth ddsbarthu'n ehangach).
- Galwadau ffôn/fideo dilynol gyda grwpiau penodol dethol er mwyn datblygu astudiaethau achos neu er mwyn gwirio data os oes angen.

- Ymchwil bwrdd cegin i unrhyw sefydliadau ynni cymunedol nad ydynt yn ymateb i'r arolwg ac er mwyn dod o hyd i sefydliadau newydd a allasai fod wedi eu hepgor o'r rhestr.

Croesewir ychwanegiadau/gwelliannau i'r dull uchod o fynd ynghyd â'r gwaith.

Rhaid cyfathrebu yn ddwyieithog gyda grwpiau Cymreig a bydd y cyfle i siarad Cymraeg wrth gynnal galwadau yn allweddol. Gall CEW gynnig y gwasanaeth hwn ar ran y cytundebwr ond bydd raid adlewyrchu hyn yng nghostau'r project os oes ei angen.

Rhaid cefnogi data â thystiolaeth a rhaid eu dilysu. Cyflwynir pob data i CEW, CEE a CES a bydd yn parhau yn eiddo iddynt.

Yr ydym hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol trefnu tri gweminar mewn partneriaeth â CEW, CEE a CES: un cyn lansio'r arolwg i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr arolwg ac i gynyddu tebygolrwydd cwblhau'r arolwg; un yn ystod yr arolwg i helpu gydag unrhyw gwestiynau sy'n codi; ac un wedi lansio'r adroddiad. Gall CEE arwain ar y trefniadau ar gyfer y gweminarau

Allgynnyrch

Disgwylir i'r project esgor ar:

Ystod 1

- Adroddiad wedi ei gynllunio ar gyfer y Deyrnas Gyfunol (gallasai hyn fod ar ffurf PDF neu wedi ei gymathu i dudalen we newydd ar wefannau CEW, CEE a CES).
- Adroddiad crynodeb gweithredol
- 3-5 astudiaeth achos.
- Bas data o'r holl ddata a gynhowyd ar gyfer y project mewn ffurf hygyrch i CEW, CEE a CES i'w ddefnyddio ar gyfer dadansoddi pellach. Yn ddelfrydol, byddai CEE yn hoffi gallu corffori'r data hyn i'w system Capsule CRM.
- Bas data o ddata dethol, anhysbys wedi ei grynhoi ar gyfer y project mewn fformat hygyrch ac addas i'w rannu'n gyhoeddus.
- Strategaeth ledaenu greadigol a hygyrch, gan gynnwys pecyn cyfryngau cymdeithasol, deunyddiau lledaenu ar lein oc oddi ar lein (ee graffeg gwybodaeth, tablau data, gofynion negesu a lobiö allweddol, sleidiau Pwynt Pwer, animeiddio, mapiau neu declynnau data ar lein rhyngweithiol). Gan fod rhai o'r opsiynau hyn yn ddrud/yn llafurus o ran amser, gellir darparu dyfynbris atodol dewisol ar eu cyfer ar wahân i'r prif ddyfynbris ar gyfer y tendr.
- Cynllun cyfathrebu ar gyfer lansio'r adroddiad (Bydd CEW, CEE a CES yn arwain ar gyflenwi'r cynllun)

Ystod 2

- Adroddiad wedi ei gynllunio yn canoli ar weithgaredd Cymreig.
- Adroddiad crynodeb gweithredol
- 3-5 astudiaeth achos.
- Bas data o'r holl ddata a gesglir ar gyfer y project mewn fformat hygyrch i CEW a CEE i'w ddefnyddio ar gyfer dadansoddi pellach.
- Strategaeth ledaenu, gan gynnwys pecyn cyfryngau cymdeithasol, deunyddiau lledaenu ar lein ac oddi ar lein (ee graffeg gwybodaeth, tablau data, gofynion negesu a lobiö allweddol, sleidiau Pwynt Pwer).

- Byddai angen i hyn fod ar gael yn ddwyieithog.

Ystod 3

- Adroddiad wedi ei gynllunio ar gyfer ardal ddaearyddol Electricity North West.
- Graffeg yr adroddiad wedi ei darparu fel dogfennau ar wahân mewn fformat ffeil addas i'w defnyddio mewn dogfennau Pwynt Pwer a Word.
- Bas data o ganlyniadau'r arolwg ar gyfer yr ardal drwydded DNO.

Trafodir unrhyw adroddiadau rhanbarthol pellach fel cytundebau ar wahân.

Rheoli'r Cytundeb

Er mwyn cyflenwi'r project hwn, bydd disgwyl i'r cytundebwr a benodir weithio'n agos gyda CEW, CEE a CES, gan gynnwys:

- Ymbresenoli mewn cyfarfod cychwynnol (ar lein).
- Darparu i reolwyr y project ddiweddiadau cyson o ran y cynnydd a wnaed, gan gynnwys uwchleuo unrhyw heriau wrth gyflawni'r gwaith.
- Gweithio mewn modd cydweithredol ac ailadroddol.
- Cytuno ymlaen llaw y dulliau y dylid eu defnyddio a'r unigolion y dylid ymgynghori â nhw.

Y bobl allweddol i gysylltu â nhw fydd:

- Cyfarwyddwr Project – Emma Bridge, Prif Weithredwr, CEE.
- Rheolwyr project, ystod 1 – Philip Coventry, CEE, Nicholas Gubbins, CES, a Robert Proctor, CEW.
- Rheolwr project, ystod 2 – Robert Proctor, CEW.
- Rheolwr project, ystod 3 – Helen Seagrave, Electricity North West, a Philip Coventry, CEE.

Bydd y cytundebwr a benodir yn enwebu ac yn darparu manylion y person fydd yn gweithredu fel y prif gyswllt a'r rheolw(y)r project yn gyfrifol am gyflenwi'r cytundeb. Dylid gosod hyn allan yn eglur wrth gyflwyno.

Bydd CEE, CES a CEW yn darparu'r wybodaeth ganlynol er mwyn cynorthwyo gyda'r cytundeb hwn:

- Rhennir data SOTS 2019 ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gyda'r ymgeisydd llwyddiannus yn ddarostyngedig i'r cytundebau cyfrinachedd angenrheidiol.
- Rhestr o'r sefydliadau ynni cymunedol ledled Cymru a Lloegr ynghyd â'u manylion cyswllt a chynhorthwy i gysylltu â hwy.
- Esiamplau posib ar gyfer astudiaethau achos cadarn.
- Os oes angen, cynhorthwy gyda darpariaeth iaith Gymraeg yng Nghymru.

Ar gyfer yr Alban, comisiynodd Llywodraeth yr Alban adroddiad blynyddol gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar nifer a math y projectau ynni cymunedol a lleol oedd yn bodoli er mwyn asesu faint o gynnydd a wnaed i gyrraedd eu targed 1GW CLE ar gyfer 2020. Mae hon yn ddogfen gyhoeddus a gellir ei hebostio i gontractwyr sy'n mynegi diddordeb.

Sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd y tim a gytundebir

Disgwylir i gytundebwyr osod allan sut y bwriadant ymgymryd â'r gorchwyl yn effeithiol ac yn effeithlon gan ddangos y sgiliau a'r arbenigedd canlynol:

- Dealltwriaeth o'r sector ynni cymunedol ar draws y Deyrnas Gyfunol.
- Cyflenwi projectau ymchwil ac ymwneud gyda rhanddeiliaid er mwyn cael mewnwelediad a gwybodaeth berthnasol.
- Gwybod sut i gyfleu enillion cymdeithasol o fodolau buddsoddi.
- Profiad o ddarparu adroddiadau cynhwysfawr, defnyddiadwy, neu ddulliau eraill creadigol a/neu ar lein o lunio crynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion cymhleth ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd.
- Crebwyll a brofwyd wrth reoli project a rheoli risg, gyda'r gallu i gyrraedd cerrig milltir allweddol o fewn amserlen fer.
- Gweithio'n agos ac yn hyblyg gyda chleientiaid.

4. Amserlen

Cam	Dyddiad(au) ac Amser(oedd)
Cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro	9 Tachwedd 2020
Llinell derfyn ar gyfer derbyn ceisiadau egluro	4 Rhagfyr 2020
Llinell derfyn ar gyfer cyflwyno Tendrau	18 Rhagfyr 2020
Hysbysu Tendrwyrr am ganlyniad arfarnu	8 Ionawr 2020
Cyfweliadau	Wythnos yn cychwyn 18 Ionawr 2021
Arfarnu terfynol	22 Ionawr 2021
Dyddiad y disgwylir Gosod y Cytundeb	25 Ionawr 2021
Dyddiad cychwyn y cytundeb	1 Chwefror 2021
Dyddiad gorffen y cytundeb	31 Mai 2021

5. Cyllideb

Mae uchafswm y gyllideb wedi ei nodi isod ac mae'n cynnwys yr holl gostau a TAW dros gyfnod y cytundeb. Bydd hyn yn cydreddeg â cherrig milltir allweddol a chwblhau allgynnyrch a chaiff ei gytuno yn ystod y cyfarfod cychwynol. Ni chaiff tendrau uwchlaw uchafswm y gyllideb eu hystyried ymhellach yn y broses arfarnu.

Uchafswm Cyllideb = £40k

Mae'n ofynnol i dendrau osod allan fan lleiaf y costau dangosol yn erbyn y meysydd gweithgaredd canlynol:

- Cynllunio yr arolwg, ei ledaenu, ei goladu, dadansoddi data, a darparu bas data (a'r ddarpariaeth ddata wedi ei hollti yn ôl ardal DNO) – a'r costau wedi eu hollti ar sail Cymru, Lloegr a'r Alban.
- Adroddiad llawn a chrynodeb gweithredol ar gyfer y Deyrnas Gyfunol wedi eu cynllunio, gan gynnwys astudiaethau achos a deunyddiau lledaenu.
- Adroddiad wedi ei gynllunio ar gyfer Cymru, gan gynnwys astudiaethau achos a deunyddiau lledaenu.
- Adroddiad wedi ei gynllunio a graffeg ar gyfer ardal ddaearyddol Electricity North West.
- Bas data ar gyfer canlyniadau arolwg ardal drwydded Electricity North West.

6. Proses gyflwyno

Bydd y broses gyflwyno fel a ganlyn:

- Gyrrwyd y cynnig hwn i sefydliadau dethol a chanddynt brofiad mewn casglu data yn y maes hwn ac fe'u postiwyd ar wefannau CEW, CEE a CES ar 9 Tachwedd 2020.
- Dylid cyflwyno ymatebion terfynol erbyn diwedd y dydd ar 18 Rhagfyr 2020 i emma.bridge@communityenergyengland.org. Bydd cynrychiolwyr o'r sefydliadau sy'n cytundebu ar gael cyn y dyddiad hwn i drafod yn gryno os oes angen.
- Y bwriad yw dethol a hysbysu ymgeiswyr o'r penderfyniad terfynol erbyn 25 Ionawr 2020. Gall cynrychiolwyr o CEE gysylltu â chynigwyr dethol i drafod cynigion yn fanylach cyn dod i'r penderfyniad terfynol.
- Cwblheir cytundeb cyfreithiol syml yn cofnodi'r contract erbyn 1 Chwefror 2020.